

Beth yw'r gwahaniaethau rhwng "Windows 7" a "Windows 8"?



[Print](#)

Os ydych chi wedi prynu cyfrifiadur newydd yn ddiweddar, mae'n debyg eich bod erbyn hyn yn ceisio mynd i'r afael â Windows 8. Dyma system weithredu ddiweddaraf "Microsoft" sydd wedi cael ei gosod ar bob cyfrifiadur Windows newydd ers diwedd 2012.

Mae "Windows 8" yn edrych yn wahanol i "Windows 7". Y rheswm am hyn yw bod y system wedi'i dylunio i weithio gyda chyfrifiaduron tabled a chyfrifiaduron sgrin cyffwrdd hefyd.




Dyma'r prif wahaniaethau:


- Pan fyddwch yn mewngofnodi i "Windows 8", y sgrin gyntaf a welwch fydd y 'Sgrin Cychwyn' newydd, a elwir hefyd yn 'Metro'. Mae'r 'Bwrdd Gwaith' yn dal yr un fath, ond mi drowm at hwnnw yn y man.
- Yn hytrach nag eiconau, mae 'Teils' ar y sgrin Cychwyn newydd. Rydych chi'n clicio ar y rhain i agor eich 'Apiau' (Applications). Os na allwch ddod o hyd i deilsen benodol, pwyswch fotwm dde'r llygoden yn y lle gwag ar waelod y sgrin a chliciwch ar **All Apps**.




- Mae modd inni ddefnyddio apiau a rhaglenni yn "Windows 8". Mae apiau'n agor ar sgrin lawn yn Metro; mae rhaglenni'n agor ar y Bwrdd gwaith fel ag yr oedden nhw yn "Windows 7".
- Mae modd llwytho apiau ychwanegol i lawr o Siop Windows.



- Mae "Windows 8" yn cynnwys rhaglen gwrth-firws o'r enw 'Defender'.
- Does dim rhaid cau apiau drwy glicio ar X yn y gornel - yn hytrach, pwyswch fotwm **Windows** ar eich bysellfwrdd i ddychwelyd at y Sgrin Cychwyn. Gellir dewis cau ap drwy ddefnyddio eich llygoden i'w lusgo i lawr o frig y sgrin, gan ddal y botwm chwith i lawr - neu gyda'ch bys os ydych chi'n defnyddio sgrin cyffwrdd.
-
-
- Does gan "Windows 8" ddim Dewislen Cychwyn. Yn hytrach, mae ganddo 'Far Botymau' (ar y dde) lle byddwch chi'n mynd i gau a defnyddio offer arall fel 'Search'.
- Efallai eich bod wedi defnyddio "Post Windows" Live ar gyfer eich e-bost yn "Windows 7", ond mae gan Windows 8 ap 'Post' newydd.




- Yn lle gorfod cael cysylltiadau ar wahân ar gyfer negeseuon e-bost, "Skype" a rhwydweithio cymdeithasol, e.e. "Facebook", bydd eich holl gysylltiadau gyda'i gilydd yn yr ap newydd, 'People'.



- Fel y nodwyd uchod, mae gan "Windows 8" Fwrdd gwaith tebyg i "Windows 7" o hyd. Cliciwch ar y deilsen **Bwrdd gwaith** i weld hyn. Mae rhaglenni traddodiadol fel "Microsoft Word" yn agor ar y bwrdd gwaith yn y ffordd arferol, a bydd yn rhaid eu cau drwy ddefnyddio'r X yn y gornel dde uchaf.



- Mae gan "Windows 8" ddau fersiwn o "Internet Explorer 10", un sy'n agor o deilsen ar y sgrin Cychwyn ac un sy'n edrych yn debycach i fersiwn 9 ac sy'n agor o eicon ar y Bwrdd gwaith. Mae'n bosib pinio rhaglenni ar y bar tasgau o hyd drwy bwysu botwm dde eich llygoden ar eicon yn y bar tasgau a dewis **Pin this program to taskbar** (Pinio'r rhaglen hon i'r bar tasgau).



□

Next steps

[Sut mae defnyddio e-bost ar "Windows 8"](#)

[Sut mae cysylltu â wifi](#)

[Sut mae defnyddio nodiadau atgoffa ar "iPhone"](#)

[Sut mae defnyddio "Post Windows Live"](#)

[Sut mae creu cyfrif "Gmail"](#)

[Sut mae anfon e-bost](#)

[Sut mae cyflymu'ch cysylltiad â'r rhyngwrwyd](#)

[Sut mae defnyddio bysellfwrdd cyfrifiadur](#)

[Sut mae cysylltu â'r rhyngwrwyd](#)

Search guides

Search

Remote Digital Championing!

Guides covering some tips and techniques for providing remote support to learners, an increasingly important service in times of social isolation.

Find out more

Free how-to guides for your website

Why not add our award-winning and extensive range of digital skills guides to your website?

Find out more

Start a Digital Champion movement!

Could your workplace do with developing its digital skills? With funded membership opportunities currently available, now is the perfect time for organisations to join our Digital Champions Network.

Find out more



Subscribe to our newsletter

Join our mailing list to receive the latest news, offers and expert insights from our team.

First name

Last name

Email address

Submit